Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Aelodau o’r Senedd – Gwariant Swyddfa

24 Awst 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Awst 2023, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

> *Hello, I am an A-Level student working on my welsh bacc dissertation and i was wondering if you could provide the numbers on office expenditures for Members of Senedd for 2021-present or as good as you can get*

Gweler ein hymateb isod.

Mae’r holl dreuliau y mae Aelodau o’r Senedd yn eu hawlio yn cael eu cyhoeddi ar y **System Cyhoeddi Lwfansau**.

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

1. Dewiswch y blynyddoedd/misoedd ariannol yr hoffech edrych arnynt.
2. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar yr opsiwn 'DEWIS AELOD' ac fe welwch restr o gyn Aelodau ac Aelodau cyfredol o’r Senedd. Yna, dewiswch enw’r Aelod(au) penodol.
3. I ddewis math penodol o lwfans, dewiswch 'DEWIS MATH O LWFANS'. Cliciwch ar yr opsiwn ‘Pa fathau o lwfans’, ac yna cliciwch ar y math o lwfans yr ydych am gael gwybodaeth yn ei gylch. (Os na fyddwch yn dewis unrhyw fath o lwfans penodol, bydd pob hawliad ar gyfer y cyfnod a’r Aelod dan sylw yn cael eu harddangos).
4. Dewiswch 'Chwilio'.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cyhoeddir y treuliau a gaiff eu hawlio ar ein system lwfansau **dri mis** yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi.  Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000,  sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd yr hawl i wneud cais amdano wedi'u cynnwys yn y **'Penderfyniad'.**

Mae **Bwrdd Taliadau Annibynnol** y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ynghylch lefel y cyflogau a'r system o gymorth ariannol a ddarperir i Aelodau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u nodi yn y **Penderfyniad** a gyhoeddwyd gan y Bwrdd.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF